
# Aeth Iesu'n ei ôl i'r nefoedd

www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Roedd ei ffrindiau gydag ef a gwelsant beth ddigwyddodd pan aeth Iesu yn ei ôl i'r nefoedd. Ysgrifennon nhw'r hanes yn y Beibl.



Deugain niwrnod wedi i Iesu atgyfodi roedd yn amser iddo fynd yn ôl i'r nefoedd at ei Dad. Dringodd ef a'i ddisgyblion i gopa Mynydd yr Olewydd.



Dywedodd Iesu wrthynt am fynd i Jerwsalem ac aros i'r Ysbryd Glân ddod i roi pŵer iddynt. Yna roeddynt i ddweud wrth bobl eraill ym mhobman y cyfan roeddent wedi gweld Iesu'n ei wneud.



A thra roedd ei ffrindiau'n sefyll yno, ar gopa'r mynydd, cymerwyd Iesu i fyny i'r nefoedd mewn cwmwl.



Roedd y disgyblion wedi eu syfrdanu ac fe wnaethon nhw sefyll yno'n gegrwth yn edrych â'u llygaid eu hunain, i fyny i'r nefoedd!



Yna ymddangosodd dau angel a dweud, "Un dydd fe ddaw Iesu'n ei ôl eto yn union yr un ffordd ag y gwelsoch ef yn mynd i fyny i'r nefoedd."



Aeth y disgylion, ar eu hunion, yn ôl i Jerwsalem, i aros am ddyfodiad yr Ysbryd Glân. Yna fe ddechreuon nhw ddweud y Newyddion Da am Iesu wrth bobl ym mhobman.



Mae'r Beibl yn dweud y bydd Iesu, un dydd, yn dod yn ôl ac yn sefydlu ei deyrnas ar y ddaear hon. Rydw i'n credu yn Iesu hefyd!